OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2980 (Cy.271)

AER GLÅN, CYMRU

Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	-	-	*14 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	-	-	*24 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), ac yntau wedi'i fodloni y gall y dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio gan y Gorchymyn hwn gael eu defnyddio i losgi tanwydd nad tanwydd awdurdodedig mohono a hynny heb gynhyrchu unrhyw fwg neu faint sylweddol o fwg, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 24 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dosbarthau ar leoedd tân sy'n cael eu hesemptio rhag adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993

2. Mae'r dosbarthau ar leoedd tân a ddisgrifir yn yr Atodlen, ar yr amodau sy'n cael eu pennu yno, yn cael eu hesemptio o ddarpariaethau adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (sy'n gwahardd gollwng mwg mewn ardaloedd rheoli mwg).

(**1**) 1993 p.11.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas

14 Tachwedd 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Erthygl 2

DOSBARTHAU AR LEOEDD TÂN SY'N ESEMPT

Dosbarthau ar Leoedd Tân	*Amodau*
Modelau RRK 22 — 49 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 49kW) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschrankter Haftung (GmbH) o Awstria.	**1.** Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0. **2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.
Modelau RRK 80 — 175 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 75 — 149 kW) ynghyd â modelau seiclon ZA 80 — 175 a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschrankter Haftung (GmbH) o Awstria.	**1.** Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0. **2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.
Model RRK 130 — 250 y Binder Wood Fired Boiler (allbwn 185 — 230 kW) gyda seiclon (model math ZA) a wneir gan Binder Gesellschaft mit beschrankter Haftung (GmbH) o Awstria.	**1.** Rhaid i'r lleoedd tân gael eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a Wood Energy Limited sy'n dwyn y teitl Binder Equipment Installation, Commissioning and Maintenance dated 17 May 2005 a'r cyfeirnod WELBinderManualrev0.doc, revision 0. **2.** Ni chaniateir defnyddio unrhyw danwydd nad pelenni neu sglodion pren mohono, ond heb gynnwys unrhyw belenni neu sglodion o'r fath (yn benodol, rhai sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel) sy'n cynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i fod wedi'u trin â chadwolion pren neu i fod wedi'u cotio.